STRATEGAETH

# Diogelwch Cymunedol

CEREDIGION 2024 - 2027



Diogel yng Ngheredigion · Safe in Ceredigion

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

1872 Prifysgol Aberystwyth University

Tai Wales & West Housing

colegsirgâr
colegceredigion

Heddlu Police Dyfed Powys

Prawf Cymru Wales Probation

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

CAVO Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Ceredigion Association of Voluntary Organisations

barcud

# CYNNWYS:


Rhagair – Cadeirydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion ........ t.3

Beth yw Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion? ........ t.4

i. Ein Gwerthoedd a'n Egwyddorion ........ t.5

ii. Beth Sydd Wedi'i Wneud yn Barod? ........ t.6

Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn 2023 ........ t.7

i. Yr Hyn Ddywedodd Trigolion Ceredigion Wrthym Ni ........ t.8

ii. Yr Hyn Ddangosodd Data Trosedd Heddlu Dyfed-Powys Wrthym ........ t.10

Blaenoriaethau Diogelwch Cymunedol Ceredigion 2024 - 2027 ........ t.11

i. Ein Blaenoriaethau Trosedd ........ t.13

ii. Ein Nodau Trosedd ........ t.15

iii. Beth Fyddwn Ni'n Ei Wneud ........ t.16

iv. Ein Blaenoriaethau Teimlo'n Ddiogel ........ t.18

v. Ein Nodau Teimlo'n Ddiogel ........ t.20

vi. Beth Fyddwn Ni'n Ei Wneud ........ t.21

Strwythur Cyflawni ........ t.23

Sut y Byddwn yn Gwybod Ein Bod ar y Trywydd Iawn? ........ t.24

Cysylltiadau Strategol ........ t.25

Gwybodaeth a Chyngor ........ t.26

# RHAGAIR:
# CADEIRYDD PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL CEREDIGION

## Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion yn falch o gyflwyno ein **Strategaeth Diogelwch Cymunedol tair blynedd ar gyfer 2024-2027**.

Rydym yn falch o'r berthynas rydym wedi'i hadeiladu, a'r gwaith sydd wedi'i gyflawni hyd yma ers sefydlu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion yn 1999. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi bod mwy o waith i'w wneud.

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn arbennig o heriol, gyda phandemig COVID-19 yn effeithio ar lawer o wahanol agweddau o'n bywydau a'n ffyrdd o weithio. Rydym hefyd yn ymwybodol bod natur trosedd yn esblygu'n barhaus, a bod llawer o droseddau fel Cam-drin Domestig a Seiberdroseddu yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig. Yn y cyfnod heriol hwn lle mae effaith y pandemig a'r argyfwng costau byw yn parhau i ddylanwadu arnom, bydd y Bartneriaeth yn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni drwy gydweithio'n agos. Bydd y dull cydgysylltiedig hwn yn ein galluogi i barhau i gefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, gan sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar weithgarwch ataliol yn ogystal â monitro ac ymateb i faterion cyfredol.




Wrth i ni gyflwyno ein Strategaeth Diogelwch Cymunedol newydd, edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda chymunedau Ceredigion i sicrhau bod ein sir yn parhau i fod yn lle ffyniannus a diogel i bobl fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

**Cadeirydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Sir Ceredigion**

> **Mae'r Bartneriaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod Ceredigion yn parhau i fod yn lle ffyniannus a diogel i bobl fyw, gweithio ac ymweld ag ef.**

# BETH YW PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL CEREDIGION?

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn ofyniad o **Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998**, sy’n ei gwneud yn ddyletswydd statudol i bob ardal Llywodraeth Leoli gael Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Mae’r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn is-grŵp o **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion** ac yn sicrhau cyfraniad at elfennau diogelwch cymunedol sydd wedi'u cynnwys o fewn y Cynllun Llesiant Lleol. Mae adroddiadau’n cael eu cyflwyno trwy eithriad i’r Bwrdd. Mae gwaith y Bartneriaeth hefyd yn destun craffu gan **Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion.**

Mae’r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnwys **partneriaid statudol ac anstatudol**. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o Heddlu Dyfed Powys, Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a’r Gwasanaeth Prawf. Adnebir y rhain fel yr **awdurdodau cyfrifol**. Gall y Bartneriaeth hefyd wahodd sefydliadau eraill, ac mae’r fforwm yn hwyluso’r broses o **gynyddu materion** a godwyd gan bartneriaid. Mae gan y Bartneriaeth gyfrifoldeb hefyd dros Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR) o fewn Ceredigion.

Bwriad y Bartneriaeth yw gweithio mewn cydweithrediad fel sefydliadau partner ar lefel strategol i **amddiffyn cymunedau lleol rhag trosedd, helpu pawb i deimlo’n fwy diogel a gwella canlyniadau diogelwch cymunedol ar gyfer trigolion Ceredigion.** Rhan bwysig o’r gwaith hwn yw adnabod ac **archwilio problemau presennol a bygythiadau posibl** a gallai effeithio Ceredigion yn y dyfodol.

Mae gan Bartneriaeth Diogelwch Ceredigion gyfrifoldeb statudol i ymgymryd ag **adolygiadau cyson o drosedd ac anhrefn** o fewn y sir, gan nodi dulliau datblygu a gweithredu camau effeithiol i leihau’r problemau hyn. Mae adolygiadau hefyd yn cael eu defnyddio i ddarparu sylfaen gref sy’n seiliedig ar dystiolaeth i lywio **Cynllun Cyflawni Diogelwch Cymunedol** ar gyfer Ceredigion.

# I. EIN GWERTHOEDD AC EGWYDDORION:

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol i weithredu ar y cyd a sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i greu Cymru gynaliadwy. Y bwriad yw cynorthwyo i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi **saith nod llesiant ar waith a 5 ffordd o weithio**, ac fel is-grŵp o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gweithio i'r un egwyddorion.

**Hirdymor**
Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

**Integreiddio**
Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff chyoeddus eraill.

**Cynnwys**
Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

**Cydweithio**
Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

**Atal**
Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

**Gan ddefnyddio'r egwyddorion hyn, mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion yn ceisio:**

- Cydbwyso risg a niwed.
- Manteisio i'r eithaf ar adnoddau drwy gyd-leoli, lleihau dyblygu a chydweithio lle bo hynny'n bosibl.
- Rhannu gwybodaeth yn effeithiol fel egwyddor ddiofyn.
- Adeiladu ar ymyriadau profedig.
- Hwyluso mewnbwn a chapasiti cymunedol effeithiol.
- Integreiddio dulliau o orfodi / gwasanaethau rheng flaen.
- Monitro'n gadarn, gwerthuso cynnydd a chymhwyso arfer da.

# II. BETH SYDD WEDI'I WNEUD YN BAROD?

Enghreifftiau o waith Diogelwch Cymunedol a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cafodd darpariaeth

## GORCHMYNION DIOGELU MANNAU AGORED CYHOEDDUS (PSPO)

ar draws canol trefi Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan eu **hymestyn am 3 blynedd ychwanegol tan 2026**. Gwneir Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, ac mae'n ei gwneud yn drosedd pe bai person yn methu â chydymffurfio â chais gan Swyddog yr Heddlu neu Swyddog awdurdodedig i beidio ag yfed alcohol, neu wrthod ildio alcohol i'r Swyddog yn yr ardal ddynodedig. **Nod y PSPO yw lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag yfed gormodol.**

Fe wnaeth Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion lansio

## WYTHNOS YMWYBYDDIAETH TROSEDDAU BREGUSRWYDD

yn 2021. Nod yr ymgyrch, a ariannwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys oedd **codi ymwybyddiaeth o droseddau sy'n targedu'r bobl fwyaf bregus** mewn cymdeithas, ac amlygu'r hyn y gellir ei wneud i helpu.

Croesawodd Tref Aberystwyth

## CERFLUN YR ANGEL GYLLYLL

yn 2022, gyda'r nod o hyrwyddo anoddefgarwch eang i ymddygiad treisgar. Gweithiodd partneriaid gyda'i gilydd i weithredu nifer o weithdai addysgol a gweithgaredd ymgysylltu. Hyrwyddwyd negeseuon atal, gwrth-drais a gwrthymddygiad ymosodol allweddol, gan ganiatáu i bobl sefyll yn erbyn trais ac ymosodedd.



> "Fesul tipyn, byddai'n dwyn fy rhyddid oddi arna' i. Hyd yn oed ar ôl i fi roi genedigaeth, roedd e'n dal i reoli beth o'n i'n ei fyta, beth o'n i'n ei brynu, ble o'n i'n mynd, a phwy o'n i'n siarad â..."

Ym mis Awst 2023, cafodd y dacteg partneriaeth amlasiantaeth

## CLIRIO, DAL AC ADEILADU

a gynlluniwyd gan y Swyddfa Gartref ac a gymeradwywyd gan yr Arolygiaeth Plismona ei dreialu am y tro cyntaf yng Nghymru fel rhan o **Ymgyrch Burleigh** yn Aberystwyth. Nod Ymgyrch Burleigh oedd torri llwybrau sirol grwpiau troseddau cyfundrefnol (OCG) y credir eu bod yn rhedeg nifer o lwybrau amrywiol i gyflenwi cyffuriau yn yr ardal, a chymhwyso dull system gyfan o ddarparu ymyriadau wedi'u grymuso gan y gymuned sy'n mynd i'r afael â'r rheiny sy'n achosi trosedd, ecsbloetio bregusrwydd a mannau sy'n dueddol o ddioddef niwed. **Ymunodd Heddlu Dyfed-Powys yn llwyddiannus ag asiantaethau partner fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS), Cyngor Sir Ceredigion a'r Gwasanaeth Prawf.**

# ASESIAD STRATEGOL TROSEDD AC ANHREFN 2023:

Yn 2023, cynhaliodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion **Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn** i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni Diogelwch Cymunedol hwn.


Roedd yr Asesiad Strategol yn cynnwys dwy elfen – y cyntaf, ymarfer ymgysylltu cyhoeddus cynhwysfawr drwy holiadur dwyieithog, a'r ail, dadansoddiad manwl o ddata amlasiantaethol.

Dosbarthwyd yr holiadur i ystod eang o randdeiliaid, a gwnaed cais i'r wybodaeth gael ei rhannu ymhlith staff, cydweithwyr ac ar draws eu rhwydweithiau. Roedd y rhestr hon o randdeiliaid yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, aelodau etholedig, grwpiau 3ydd sector, fforwm anabledd, mosgiau ac ystafelloedd gweddi. Cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu hefyd gyda Chyngor Ieuenctid Ceredigion, ac roedd copïau papur ar gael yn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden Ceredigion. Hyrwyddwyd yr ymarfer ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol ar 3 achlysur. Derbyniwyd 89 o ymatebion i'r holiaduron. Cynhyrchwyd adroddiad o ddadansoddiad yr ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd.


Ystyriwyd cefnogi data meintiol a gyflwynwyd gan bartneriaid ochr yn ochr â'r ymatebion ansoddol i holiaduron, a oedd yn caniatáu **cymhariaeth o ganfyddiad y cyhoedd ac ofn troseddau, yn erbyn data troseddau empirig a ffigurau ymgysylltu â gwasanaethau.**

Cyflwynwyd copi drafft o'r Asesiad Strategol i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion i'w ystyried, ac fe'i **cymeradwywyd** wedi hynny. Yn ogystal â hyn, ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a amlinellwyd yn yr Asesiad, **cytunodd y Bartneriaeth ar nifer o flaenoriaethau** a fyddai'n sylfaen ar gyfer Strategaeth a Chynllun Cyflawni Diogelwch Cymunedol Ceredigion.


# I. YR HYN DDYWEDODD TRIGOLION CEREDIGION WRTHYM NI:




Dywedodd 46% fod troseddu wedi **cynyddu ychydig** dros y 12 mis diwethaf.




Dywedodd 58% fod **camddefnyddio alcohol** yn broblem fawr.




Dywedodd 87% fod **camddefnyddio cyffuriau** yn broblem fawr.

Y **tri phrif fater** sydd **wedi gwella** dros y 12 mis diwethaf **ym marn** y cyhoedd oedd:

1. **Presenoldeb Gweladwy gan yr Heddlu**
2. **Diogelwch ar y Ffordd a Lleihau Marwolaethau ar y Ffordd**
3. **Goleuadau Stryd**

Y **tri phrif fater** sydd **wedi gwaethygu** dros y 12 mis diwethaf **ym marn** y cyhoedd oedd:

1. **Cyflenwi Cyffuriau yn Anghyfreithlon**
2. **Camddefnyddio Sylweddau**
3. **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Wrth ei rannu yn ôl ardaloedd daearyddol, roedd tebygrwydd yn amlwg. Nodwyd mai **materion yn gysylltiedig â chyffuriau** oedd y brif flaenoriaeth **mewn tri o'r chwe ardal**.

Y brif flaenoriaeth yn **Aberystwyth**: *Trais yn Erbyn Menywod a Merched*

Y brif flaenoriaeth yn **Aberaeron**: *Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)*

Y brif flaenoriaeth yn **Aberteifi**: *Troseddau Rhyw*

Y brif flaenoriaeth yn **Llandysul**: *Camddefnyddio Sylweddau (Cyffuriau)*



Y brif flaenoriaeth yn **Nhregaron**: *Cyflenwi Cyffuriau yn Anghyfreithlon*

Y brif flaenoriaeth yn **Llambed**:: *Troseddau Rhyw*

# I. YR HYN DDYWEDODD TRIGOLION CEREDIGION WRTHYM NI:

Dangosodd canlyniadau'r holiadur mai'r materion **diogelwch cymunedol** sy'n achosi'r pryder mwyaf i breswylwyr oedd...

1. Troseddau Rhyw
2. Trais yn Erbyn Menywod a Merched
3. Cyflenwi Cyffuriau yn Anghyfreithlon
4. Trais Domestig (gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu)
5. Troseddu Treisgar






Dangosodd y canlyniadau taw'r prif faterion a oedd yn bygwth pobl i **deimlo'n ddiogel** wedi'u nodi fel...

1. Bwrgleriaeth
2. Troseddau Seiber ac Ar-lein / Twyll
3. Difrod Troseddol
4. Galw Diwahoddiad
5. Camddefnyddio Cyffuriau ag Alcohol
6. Dim presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu

# II. YR HYN A DDYWEDODD DATA TROSEDDAU A GOFNODWYD GAN HEDDLU DYFED-POWYS WRTHYM NI:


**Digwyddiadau a gofnodwyd ar gyfer 2022-2023,** a **thueddiadau** o'u cymharu â digwyddiadau a gofnodwyd ar gyfer 2021-2022.



# BLAENORIAETHAU DIOGELWCH CYMUNEDOL CEREDIGION 2024-2027

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu'r **blaenoriaethau ar gyfer Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion** ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Rhaid nodi nad yw'r Strategaeth yn ceisio disgrifio'r holl weithgareddau a wneir gan bob un o'r partneriaid sy'n ymwneud â Diogelwch Cymunedol, ond yn hytrach mae'n tynnu sylw at **flaenoriaethau allweddol** y Bartneriaeth am y tair blynedd nesaf. **Nid yw hefyd yn dyblygu'r gwaith** a gyflawnir drwy strwythurau eraill, ond bydd yn parhau i fonitro a derbyn diweddariadau perthnasol gan bartneriaid yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.




Fel rhan o Asesiad Llesiant Lleol diweddaraf Ceredigion a gynhaliwyd yn 2022 gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, darganfuwyd bod **61% o'r ymatebwyr i'r Arolwg Lles yn nodi taw teimlo'n ddiogel yn eu cartref eu hunain oedd yr hyn yr oeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned.** Mae'r Asesiad yn adlewyrchu, er bod canfyddiad troseddau yn tueddu i fod yn uwch na nifer gwirioneddol y troseddau, y byddai ymchwiliad pellach yn helpu i ddeall natur pryderon pobl a pham bod teimlo'n ddiogel yn cael sylw mor amlwg wrth ymgysylltu. Mae'n bosibl bod digwyddiadau'r blynyddoedd diwethaf wedi cael dylanwad ar arwyddocâd eang diogelwch fel cysyniad, o ran bygythiad uniongyrchol i iechyd pobl ond hefyd yr effeithiau ehangach megis yr effaith ar iechyd meddwl, arwahanrwydd cymdeithasol a cholli cyflogaeth.

Ymhellach i'r uchod, mae cymhariaeth o ba mor gywir y mae barn gyhoeddus yn cyd-fynd â newidiadau gwirioneddol yn nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn awgrymu **nad yw ffigurau troseddau bob amser yn adlewyrchu materion sy'n peri pryder i gymunedau ar lawr gwlad**. Er enghraifft, er bod ymatebion i'r holiadur yn dangos bod y cyflenwad anghyfreithlon o gyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith y 3 mater uchaf yr ystyriwyd eu bod wedi gwaethygu, mae tueddiadau ar gyfer y digwyddiadau hyn a gofnodwyd yn awgrymu gwelliant o 3% a 25% yn y drefn honno.

# BLAENORIAETHAU DIOGELWCH CYMUNEDOL CEREDIGION 2024-2027
*(parhad)*

O gofio hyn, cytunwyd y byddai'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn canolbwyntio ar **leihau gweithgarwch troseddol, tra hefyd yn sicrhau bod hyn yn trosi i wella hyder y cyhoedd a'r teimlad o ddiogelwch o fewn cymunedau.**

Felly, mae’r blaenoriaethau a nodwyd wedi'u rhannu o dan ddau gategori:

**CATEGORI 1: BLAENORIAETHAU TROSEDD**

**CATEGORI 2: BLAENORIAETHAU TEIMLO'N DDIOGEL**

Cafodd hyn ei gytuno arno gan y gallai'r dull gweithredu ar gyfer cyflawni tasgau a nodir o dan y blaenoriaethau hyn amrywio yn ôl os yw'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn mynd i'r afael â phryderon trosedd a phryderon cymunedol, neu fygythiadau gwirioneddol nad yw'r cyhoedd o reidrwydd yn eu gweld efallai.

Er mwyn hwyluso'r cyflawniad, unwyd rhai themâu tebyg a nodwyd o dan ymbarél y ddau gategori, a chytunwyd ar set o amcanion ar gyfer pob un o'r meysydd blaenoriaeth hyn. Cynhaliwyd **sesiwn gweithdy** gan Dîm Cefnogi Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion, a oedd yn defnyddio meddalwedd rhyngweithiol i gipio cynigion gan bartneriaid ar gyfer gweithgareddau a fyddai'n cyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt. **Bydd y mentrau hyn a amlinellir isod yn llywio gwaith y Bartneriaeth wrth symud ymlaen.**

# CATEGORI 1: TROSEDD
# I.) EIN BLAENORIAETHAU

Bydd y grŵp blaenoriaeth hwn yn canolbwyntio ar gydweithio fel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i **leihau troseddu a niweidio yng Ngheredigion.**

Yn unol â chanfyddiadau'r Asesiad Strategol, byddwn yn canolbwyntio ar **4 maes penodol** fel rhan o'r categori blaenoriaeth hwn:

## 1. Troseddau Rhyw

## 2. Trais yn Erbyn Menywod a Merched

## 3. Cyflenwi Cyffuriau yn Anghyfreithlon a Chamddefnyddio Sylweddau

## 4. Trais Domestig gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu

Pwysig yw nodi bod y meysydd hyn yn **cyd-fynd yn agos** iawn â blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2023-2024. Mae Strategaeth Rheoli Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer 2023-2024 yn blaenoriaethu **Cam-drin Domestig, Trais a Throseddau Rhywiol, a Chyffuriau Anghyfreithlon,** gyda Thrais yn erbyn Menywod a Merched, Llinellau Sirol a Ffiniau yn themâu trawsbynciol.

**Mae'r cydweithrediad hwn yn darparu mandad ychwanegol i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion i ganolbwyntio ar y meysydd hyn, ac yn rhoi hyder bod y blaenoriaethau cywir yn cael sylw.**

# CATEGORI 1: TROSEDD

# I.) EIN BLAENORIAETHAU *(parhad)*

## Mae VAWDASV yn sefyll am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'n ymgorffori Trais yn erbyn Menywod (a Merched), Cam-drin Domestig, Treisio a Thrais Rhywiol, Aflonyddu Rhywiol, Anffurfio Organau Rhywiol Benywod, Trais ar sail Anrhydedd, Priodas dan Orfod, Stelcio, Masnachu a mathau eraill o drais. Er y cydnabyddir y gall unrhyw un ddioddef VAWDASV, **gwyddom fod menywod a merched mewn perygl anghymesur**. Nid yw hyn yn golygu y bydd dioddefwyr gwrywaidd yn cael eu hanwybyddu, a bydd y Bartneriaeth yn ceisio cydweithio i gefnogi pob goroeswr waeth beth fo'u rhyw.

Mae VAWDASV yn achosi sbectrwm eang o niwed i unigolion a theuluoedd, ac mae ei **effaith yn aml yn ymledu ar draws cymunedau, cymdeithasau ac economïau**. Dangosodd Data Troseddau Heddlu Dyfed-Powys gynnydd o 17% a 23% mewn Troseddau Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a Merched yn y drefn honno rhwng 2021/2022 a 2022/2023. Gyda hyn mewn golwg, mae'n **gam cadarnhaol** bod ffocws o'r newydd ar fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched yn genedlaethol.

Mae camddefnyddio cyffuriau a sylweddau hefyd yn cael effaith ddinistriol ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae'n aml yn **amlygu llu o ganlyniadau niweidiol fel trais, anawsterau ariannol, a phroblemau tai**. Er bod Data Troseddau Heddlu Dyfed-Powys wedi dangos gostyngiad o 3% mewn Masnachu Cyffuriau, mae cynnydd sylweddol o 43% mewn Meddiant Cyffuriau rhwng 2021/2022 a 2022/2023 yn awgrymu bod hwn yn faes a fyddai'n **elwa o ffocws partneriaeth wedi'i dargedu.**

> Mae'n gam cadarnhaol bod ffocws o'r newydd ar **fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched yn genedlaethol**. Drwy'r flaenoriaeth hon, ein nod yw lleihau'r ffigurau hyn, a gwneud Ceredigion yn lle mwy diogel i fenywod a merched.



# CATEGOR1 1: TROSEDD
## II.) EIN NODAU TROSEDD

**1.1** Lleihau **camddefnyddio sylweddau** a **chyflenwi anghyfreithlon** yng Ngheredigion.

**1.2** Lleihau nifer y **troseddau rhywiol**.

**1.3** Lleihau nifer yr achosion o **drais yn erbyn menywod a merched (VAWG)**.

**1.4** Lleihau nifer y digwyddiadau **Cam-drin Domestig.**

**1.5** Cyfeirio **Grwpiau Agored i Niwed** at gefnogaeth sydd ar gael.

**1.6** Cefnogaeth i **Dystion a Dioddefwyr sy'n Agored i Niwed** drwy'r System Cyfiawnder Troseddol.

**1.7** Lleihau lefelau **Camddefnyddio Alcohol** yng Ngheredigion.

| **CATEGORI 1: TROSEDD**<br>**III.) BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD** | 1.1 | 1.2 | 1.3 | 1.4 | 1.5 | 1.6 | 1.7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Parhau i gefnogi a hyrwyddo gwaith is-grwpiau camddefnyddio sylweddau asiantaethau partner. | ✓ | | | | ✓ | | ✓ |
| Cydlynu dull Partneriaeth o gefnogi a hyrwyddo ymgyrchoedd a mentrau atal troseddu. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Parhau i weithio mewn partneriaeth fel rhan o'r fenter Clirio, Cynnal ac Adeiladu, a chymhwyso ei egwyddorion yn ehangach ar draws meysydd eraill. | ✓ | | | | ✓ | | |
| Gweithio gyda Bwrdd Rhanbarthol VAWDASV a chefnogi cyflawni amcanion a chamau gweithredu lleol. | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Cynnwys cymunedau mewn ymdrechion i atal, meithrin diwylliant sy'n gwrthod trais ac yn hyrwyddo parch. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |

| **CATEGORI 1: TROSEDD**<br>**III.) BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD *(parhad)*** | 1.1 | 1.2 | 1.3 | 1.4 | 1.5 | 1.6 | 1.7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyd-weithio gyda phartneriaid, ysgolion ac addysg bellach er mwyn sicrhau lles a diogelwch myfyrwyr. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Hyrwyddo systemau cymorth i oroeswyr, gan gynnwys llochesi, cwnsela, mannau diogel a llinellau cymorth i annog adrodd. | | | | | ✓ | ✓ | |
| Gweithio gyda phartneriaid allweddol i gyflawni mentrau atal troseddau i sicrhau bod preswylwyr ac ymwelwyr yn cael eu diogelu. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Canolbwyntio ar greu economi ddiogel a bywiog gyda'r nos. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |

# CATEGORI 2: TEIMLO'N DDIOGEL
# IV.) EIN BLAENORIAETHAU

Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar gydweithio fel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i **leihau ofn troseddu a gwella hyder y cyhoedd yng Nghheredigion.**

Yn unol â chanfyddiadau'r Asesiad Strategol, byddwn yn canolbwyntio ar **5 maes penodol** fel rhan o'r categori blaenoriaeth hwn:

## 1. Bwrgleriaeth

## 2. Troseddau Seibr, Twyll a Galw Diwahoddiad

## 3. Difrod Troseddol

## 4. Camddefnyddio Cyffuriau ag Alcohol

## 5. Presenoldeb gweladwy gan yr Heddlu

**61%** Nododd 61% o'r ymatebwyr i'r Arolwg Lles yn nodi taw **teimlo'n ddiogel** yn eu cartref eu hunain oedd yr hyn yr oeddent yn ei werthfawrogi fwyaf am eu cymuned.

Mae tawelu meddyliau'r cyhoedd yn rhan hanfodol o waith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, ac mae pwysigrwydd hyn yn cael ei **atgyfnerthu gan ba mor gryf y daeth y thema o deimlo'n ddiogel yn ystod yr Asesiad Llesiant Lleol yn ddiweddar.**

# CATEGORI 2: TEIMLO'N DDIOGEL

# IV.) EIN BLAENORIAETHAU *(parhad)*

Yn ddiddorol, roedd llawer o faterion a nodwyd gan y cyhoedd a fyddai'n eu rhwystro rhag teimlo'n ddiogel fel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Dwyn a Seibrdroseddu i **lawr yn 2022/2023 o'i gymharu â 2021/2022** yn ôl data trosedd Heddlu Dyfed-Powys, sef -25%, -9% a -6.4% yn y drefn honno.

Mae hyn yn awgrymu y byddai rhywfaint o waith cyfathrebu ychwanegol o fudd i'r Bartneriaeth ymgymryd ag ef i sicrhau'r cyhoedd o **ba mor gyffredin yw'r mathau hyn o faterion yn ardal Ceredigion**. Mae'n bosibl bod canfyddiad y cyhoedd o droseddu yn cael ei ddylanwadu gan faterion a godwyd yn y cyfryngau a dod i gysylltiad â'r newyddion, a allai orbwysleisio goruchafiaeth rhai mathau o droseddau yn ein hardal.

Bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol hefyd yn canolbwyntio ar gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol drwy'r agwedd o deimlo'n ddiogel. Dywedodd 87% o'r trigolion a ymatebodd i'r holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd fod camddefnyddio cyffuriau yn broblem fawr yng Ngheredigion, ac mae'n ymddangos bod y cynnydd o 43% mewn Meddiant Cyffuriau a gofnodwyd ar gyfer 2022/2023 yn **nata troseddau Heddlu Dyfed-Powys yn ategu hyn.**

Cynyddodd nifer y Troseddau sy'n Gysylltiedig ag Alcohol 15.5% hefyd yn ôl y data troseddau. Mae rhywfaint o waith sydd eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn yn cynnwys gweithredu'r dacteg amlasiantaeth **Clirio, Cynnal ac Adeiladu**, ac ymestyn darpariaeth **Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPOs)** ar draws canol trefi Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan am 3 blynedd ychwanegol tan 2026.

Nod y Bartneriaeth yw parhau ac adeiladu ar y darnau hyn o waith fel rhan o'r flaenoriaeth hon er mwyn tawelu meddyliau'r cyhoedd.

Bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn ceisio **grymuso cymunedau lleol**, gan eu harfogi â **gwybodaeth, dealltwriaeth ac offer** perthnasol i allu gwneud **penderfyniadau gwybodus** o ran adrodd am bryderon.



# CATEGORI 2: TEIMLO’N DDIOGEL

# V.) EIN NODAU TEIMLO'N DDIOGEL

**2.1** Lleihau'r ofn cyffredinol o drosedd yn y gymuned a **rhoi sicrwydd i'r cyhoedd**.

**2.2** Cynyddu **negeseuon i dawelu meddyliau’r** cyhoedd gan godi ymwybyddiaeth o ostyngiad mewn ardaloedd trosedd yn enwedig byrgleriaeth ddomestig.

**2.3** Gweithio gyda phartneriaid sy'n delio ag **ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB)** i wella hyder y cyhoedd a lleihau'r ofn o drosedd.

**2.4** Gweithio gyda phartneriaid i atal troseddu a **diogelu'r cyhoedd.**

**2.5** Lleihau digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithio gyda phartneriaid i gyflawni mentrau **lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.**

## CATEGORI 2: TEIMLO'N DDIOGEL
## VI.) BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD

| | 2.1 | 2.2 | 2.3 | 2.4 | 2.5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Codi proffil y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ymhlith y cyhoedd a grwpiau cymunedol. | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Cefnogi gwaith y Grŵp Datrys Problemau (PSG) yng Ngheredigion. | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cefnogi a chyfrannu at waith y Grŵp Llywio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Rhanbarthol. | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyhoeddi a hyrwyddo cyngor atal troseddau a straeon newyddion da i leddfu ofn troseddu. | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Hyrwyddo a chefnogi'r broses Adolygu Achos Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. | | | ✓ | ✓ | ✓ |

| **CATEGORI 2: TEIMLO'N DDIOGEL**<br>**VI.) BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD *(parhad)*** | 2.1 | 2.2 | 2.3 | 2.4 | 2.5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymateb i unrhyw faterion newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg drwy barhau i fonitro data troseddau cyfoes a thensiynau cymunedol. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hyfforddiant i arweinwyr cymunedol a phartneriaid eraill i wella sgiliau atal trosedd a gwytnwch. | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Rhaglenni ataliol wedi'u targedu mewn cydweithrediad â phartneriaid sy'n cefnogi adnabod ac ymyrraeth gynnar, mynd i'r afael â diweithdra, camddefnyddio sylweddau, anghenion tai ac iechyd meddwl. | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Monitro Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus mewn perthynas â'u heffeithiolrwydd a'u hadolygu ar gyfer unrhyw feysydd pryder newydd posibl. | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gweithredu, monitro a gorfodi amodau trwyddedu. | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ |

# STRWYTHUR CYFLAWNI

Mae gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol **bedwar is-grŵp** sy'n gyrru cyflawni'r amcanion yn weithredol. Cafodd yr is-grwpiau eu hadolygu yng ngoleuni'r blaenoriaethau newydd, ac ystyrir eu bod yn dal yn briodol i'w cyflawni. Bydd y trefniadau hyn yn **parhau i gael eu monitro** i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

## CYDLYNIANT CYMUNEDOL

Mae Partneriaeth Diogelwch Ceredigion hefyd yn derbyn adroddiadau gan y Tîm Cydlyniant Cymunedol sy'n gwasanaethu'r rhanbarth. Mae'r tîm yn adrodd yn ôl ar eu gwaith **grantiau bach gweithgar** iawn. Maent hefyd yn cynnal **grŵp Monitro Tensiwn** ym mhob un o ardaloedd Awdurdod Lleol Dyfed-Powys. Mae'r rhain yn gynulliadau wythnosol anffurfiol o weithwyr proffesiynol ac maent yn ffordd effeithiol o fonitro tensiynau cymunedol lleol cyn iddynt waethygu.

### GRŴP TACTEGOL

Dan arweiniad Arolygydd Tîm Plismona Bro Heddlu Dyfed-Powys, mae'r grŵp hwn yn ymgynnull trwy Gyfarfod Tactegol amlasiantaethol sy'n cyfarfod bob chwarter ac yn goruchwylio **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Plismona Cymunedol a Chymdogaeth, Grŵp Datrys Problemau a mentrau troseddau lefel is**. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r grŵp wedi llwyddo mewn prosiectau sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddau cyllyll, economi nos, sbeicio diodydd, diogelwch menywod, ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd a materion diogelwch cymunedol eraill.

### BWRDD CONTEST

Dan arweiniad Cyngor Sir Ceredigion a'i gyflwyno drwy'r Bwrdd CONTEST amlasiantaeth lleol sy'n cael ei gadeirio gan y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Partneriaethau a Pherfformiad. Mae'r grŵp hwn yn adrodd yn ôl ar **gyflawni strategaeth Gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU o dan y 4 elfen ('the 4 P's') sef Atal, Diogelu, Paratoi a Chynnal**. Mae ganddo gysylltiadau â Bwrdd CONTEST rhanbarthol ac mae hefyd yn adrodd i mewn iddo fel rhan o strwythur CONTEST CYMRU. Y blaenoriaethau presennol yw'r adolygiad diweddar o'r Strategaeth Atal, hyfforddiant Gwrthderfysgaeth ar gyfer staff a phartneriaid a pharatoi ar gyfer y **Ddyletswydd Diogelu sy'n dod i mewn (Cyfraith Martyn)**.

### BWRDD SVOC

Dan arweiniad Prif Arolygydd Partneriaethau Heddlu Dyfed Powys. Mae'r Bwrdd SVOC amlasiantaethol yn cyfarfod yn chwarterol ac yn adrodd ar faterion Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol wrth iddynt effeithio ar y sir. Mae ganddynt fynediad at **dîm ymyriad PCSO penodedig o dan fenter INTACT**, sydd â swyddogion arbenigol yn rhanbarthol sy'n gweithio gyda phartneriaid i dargedu achosion pobl iau sy'n cael eu denu i droseddu difrifol neu gyfundrefnol. Bydd y grŵp hefyd yn cyflawni gofynion y **Ddyletswydd Trais Difrifol** newydd.

### GRŴP IOM

Mae IOM yn cyfeirio at Reoli Troseddwyr Integredig. Mae'r grŵp hwn yn cael ei arwain gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Maent yn adrodd ar fentrau rheoli troseddwyr **lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.**

# SUT Y BYDDWN YN GWYBOD EIN BOD AR Y TRYWYDD IAWN?

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion yn **cyfarfod yn chwarterol**. Bydd yr arweinwyr thematig ar gyfer pob un o is-grwpiau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn rhoi **diweddariad chwarterol** ar weithgaredd i'r Cynllun Cyflawni, a fydd yn cael ei ddosbarthu i bartneriaid wythnos cyn y cyfarfod i hwyluso trafodaethau ar y diwrnod.

Fel is-grŵp o **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion**, mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn adrodd i'r Bwrdd drwy eithriad a hefyd yn adrodd ar weithgarwch i **Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion**. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol hefyd yn cael ei chynrychioli ar **lefel ranbarthol**, ac mae'n adrodd i wahanol fyrddau strategol sy'n goruchwylio gwaith ar agendâu penodol. Mae cyswllt rheolaidd hefyd yn cael ei gynnal gyda **Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys**, yn benodol mewn perthynas â chyfleoedd ariannu.

Bydd y Bartneriaeth yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg drwy ei Grŵp Tactegol, lle bydd **ffigurau diweddaraf o ddangosfwrdd troseddau Heddlu Dyfed-Powys** yn cael eu cyflwyno. Mae diweddariadau partner wedi'u cynnwys fel eitemau ar yr agenda ym mhob un o gyfarfodydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i sicrhau bod unrhyw faterion a nodwyd yn cael eu cynyddu yn ôl yr angen.

Byddwn yn gwella **rhyngweithio ac ymgysylltu â'n cymunedau**, gan ganolbwyntio ar godi proffil y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a hyrwyddo negeseuon diogelwch trwy sesiynau briffio i **grwpiau cymunedol a Chynghorau Tref a Chymuned lleol**. Bydd gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o rôl a swyddogaeth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ymhlith ein preswylwyr yn cynyddu ymddiriedaeth a sicrwydd yn ein gwaith, ac yn **cryfhau cysylltiadau** â'n cymunedau.

Bydd y Strategaeth, ein Cynllun Cyflawni ac effeithiolrwydd ein is-grwpiau yn cael eu **monitro'n rheolaidd** i sicrhau bod yr holl gyfleoedd i wella Diogelwch Cymunedol yng Ngheredigion fel partneriaeth yn cael eu gwella i'r eithaf.

# CYSYLLTIADAU STRATEGOL

- Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-2028
- Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion 2022 - 2027
- Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru 2022-2026
- Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru 2023-2027
- Blaenoriaethau Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys
- Cynllun Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys 2021-2025
- Strategaeth Rheoli Heddlu Dyfed-Powys 2023-2024
- Dyletswydd Trais Difrifol
- Strategaeth Gwrthderfysgaeth y DU (CONTEST)
- Uned Atal Trais Cymru
- Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

# GWYBODAETH A CHYNGOR

**Heddlu Dyfed-Powys:**

Os oes rhywun mewn perygl uniongyrchol ac angen cymorth ar unwaith:

Ffoniwch yr Heddlu ar **999**

Os nad yw'n argyfwng, ond eich bod am drafod gyda'r Heddlu:

Ffoniwch **101**

Os ydych chi'n fyddar neu'n drwm eich clyw, defnyddiwch y **gwasanaethau neges destun ar 18001 101 neu 07811 311 908**

I adrodd ar-lein, ewch i **https://www.police.uk/pu/contact-us/**

Siaradwch â'ch **Tîm Plismona Bro** lleol.

I riportio trosedd neu ymddygiad amheus yn ddienw, cysylltwch â **Crimestoppers**:

Ffoniwch **0800 555 111**

Ewch i **crimestoppers-uk.org**

Neu, os ydych chi'n berson ifanc 11-16 oed, gallwch gysylltu â Fearless yn ddienw:

Ewch i **https://crimestoppers-uk.org/fearless**

**Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed:**

Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer oedolion yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Aberystwyth: **01970 626 470**

Aberteifi: **01239 623 831**

E-bost: **confidential@d-das.co.uk**

Os ydych yn credu eich bod o bosibl wedi dioddef trosedd, cysylltwch â **Chymorth i Ddioddefwyr Dyfed-Powys**:

**Ffoniwch Goleudy**, eich tîm gofal dioddefwyr lleol yn Nyfed-Powys ar **0300 123 2996 rhwng10am - 6pm, dydd Llun i ddydd Sadwrn**.

E-bost **goleudy@dyfed-powys.police.uk**

Os oes angen cymorth arnoch y tu allan i oriau agored, ffoniwch **Cymorth i Ddioddefwyr** ar eu llinell gymorth am ddim ar 08 08 16 89 111 neu ofyn am gymorth drwy'r wefan: **www.victimsupport.org.uk**

**Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru:**

Mae'n cynnig lloches i fenywod, plant a dynion sy'n ffoi rhag cam-drin domestig, llinell gymorth gyfrinachol 24/7 a gwasanaethau cymunedol gan gynnwys cefnogaeth un i un a rhaglenni grŵp.

Ewch i **https://www.westwalesdas.org.uk/**

Gogledd Ceredigion: **01970 625585**

De Ceredigion: **01239 615385**

E-bost: **info@westwalesdas.org.uk**

Llinell gymorth **Byw Heb Ofn 0808 8010 800**

**Canolfan Gymorth Trais Rhywiol Canolbarth Cymru:**

Mae'n darparu gwasanaethau argyfwng trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol.

Ffoniwch **01970 610124**

**https://www.newpathways.org.uk/mid-wales-rape-support-centre/**

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac Adolygiad Achos ASB:**

**www.ceredigion.gov.uk/resident/housing/homeowner-zone/antisocial-behaviour-and-neighbourhood-problems/**

## CYSYLLTWCH Â NI:

**Os oes gennych unrhyw sylwadau neu adborth mewn ymateb i'r Strategaeth, cysylltwch â ni.**

**Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion**
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

***partneriaethau@ceredigion.gov.uk***

## MWY O WYBODAETH:

https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/partneriaethau/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus-ceredigion/diogelwch-cymunedol/

